# Gwasanaeth byr - Rhyfela Ym Mhalestina (20240526)

Bore da.

Mae ‘da fi lyfr gartref o gerddi Gwenallt. Fel cymrawd o Gwm Tawe, mae Gwenallt yn sbesial i fi. Un o Bontardawe oedd, jyst tair milltir i lawr y cwm o Odre’r Graig, fy mhentre i. Enw barddol yw Gwenallt, cymerodd y bardd o enw’r pentref cyferbyn a’i gartref ym Mhontardawe, set Yr Allt Wen. Bu tad Gwenallt farw mewn damwain â metal tawdd yng Ngwaith Tun Pontardawe. Anafwyd fy nhadcu inau, Ifan Watcyn, gan fetel tawdd hefyd pan oedd ond yn bedair ar bymtheg oed yng Ngwaith Tun Ystalyfera, anaf arhosodd ganddo hyd ei oes. Mae ‘na sôn fod marwolaeth ei dad wedi creu argraff ddofn ar Gwenallt.

Meddyliais y byddai’n ddiddorol mynd ar drywydd gwahanol y bore ‘ma. Byddai’n sôn am yr argyfwng ym Mhalestina, gan ddarllen rhai o gerddi Gwenallt, ysgrifenodd i gofio’i brofiadau yno yn ystod ymweliad yn 60au’r ugeinfed ganrif … ac fe gawn un cerdd yr un gan Hedd Wyn a Waldo, a darlleniad o’r Salmau. Ond i ddechrau, ychydig o gefndir.

**Y CEFNDIR**

Awn ni ‘nôl i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, â’r Iddewon Ewrop yn crefu ffoi erledigaeth gynyddol a gwrth-Semitiaeth. Ganwyd Seioniaeth (Zionism) â’r bwriad o sefydlu mamwlad Iddewig ym Mhalestina, yn y Dwyrain Canol.

Rhwng 1920 a 1947, roedd gan yr Ymerodraeth Brydeinig reolaeth o fath dros Balestina. Bryd hyny, roedd Palestina yn cynwys holl diroedd yr Israel bresenol yn ogystal â Llain Gaza a’r Lan Orllewinol. Bu cynydd yn y nifer o bobl Iddewig a ymfudai i Balestina, a chynydd yn y tensiwn rhanbarthol.

Cyfranodd y pwerau Ewropeaidd at lawer o ansefydlogrwydd yn gyffredinol yn y Dwyrain Canol, yn enwedig yr Ymerodraeth Brydeinig. Er enghraifft, yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ym 1916, argyhoeddwyd arweinwyr Arabaidd i wrthryfela yn erbyn yr Ymerodraeth Otomanaidd (oedd yn cefnogi’r Almaen). Addawodd llywodraeth Prydain y byddai’r Arabiaid wedyn yn cael sefydlu gwladwriaeth Arabaidd anibynol yn y rhanbarth, gan gynwys Palestina. Ar fwy neu lai’r un pryd, cyhoeddwyd Datganiad Balfour gan lywodraeth Prydain, yn cefnogi sefydlu cartref cenedlaethol Iddewig ym Mhalestina!

Cymhlethtod pellach oedd cytundeb rhwng Prydain a Ffrainc, fel ysbail rhyfel, i gipio’r holl daleithiau Arabaidd ar gwymp yr Ymerodraeth Otomanaidd ac ail-linio map y Dwyrain Canol gan gynwys Irac ac Iran ac yn y blaen. Ffiniau artiffisial, a’r gwledydd i gyd o dan fawd Prydain a Ffrainc.

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, argymhellodd y Cenhedloedd Unedig (oedd newydd ei ffurfio) y dylsai rhanu Palestina yn ddwy wladwriaeth, a gwneud Jerwsalem yn ddinas rhyngwladol. Ac yn drawiadol, y lleiafrif Iddewig a dderbyniai’r rhan fwyaf o dir.

Cyhoeddwyd Gwladwriaeth Israel ar Fai 14, 1948. Ond ni dderbyniodd y taleithiau Arabaidd y penderfyniad i ranu tiroedd Palestina a chread Israel. Ymosododd byddinoedd Irac, Syria, Libanus, Gwlad yr Iorddonen, Saudi Arabia, Yemen, a'r Aifft ond fe'u trechwyd gan fyddin Israel. Gyrrwyd Palestiniaid allan o Israel newydd i wersylloedd ffoaduriaid yn yr Iorddonen, yr Aifft, Libanus a rhanbarthau eraill. Dywedir bod o leiaf 750,000 o bobl wedi cael eu gyrru allan.

Ym 1956, goresgynodd Prydain, Ffrainc ac Israel benrhyn Sinai ar ôl i'r Aifft wladoli camlas Suez. Er i'r Aifft gael ei threchu, gorfododd pwysau rhyngwladol (UDA, mewn gwirionedd) i'r gorchfygwyr dynu'n ôl.

Ym 1967, ymosododd Israel ar yr Aifft, Syria a Gwlad yr Iorddonen. Cipiodd Israel ddarnau allweddol o dir, megis y Golan Heights wrth Syria, y Lan Orllewinol wrth Wlad Yr Iorddonen a Llain Gaza a Sinai wrth yr Aifft. Ym 1973, ymosododd yr Aifft a Syria ar Israel ar ddiwrnod sanctaidd Iddewig Yom Kippur i geisio adenill eu tir coll, ond methiant bu'r ymgyrch.

Ym 1978, llofnodwyd cytundeb Camp David rhwng Israel, yr Aifft a'r Unol Daleithiau, a dychwelodd Israel Sinai i'r Aifft. Yn yr un flwyddyn, oherwydd ymosodiadau Hezbollah cynyddol o Dde Libanus, ymosododd Israel a goresgyn Libanus. Ym 1982, aeth byddin Israel mor bell â Beirut. Ym 1985, datganodd Israel fod stribed o Dde Libanus yn Barth Diogelwch. Ar ôl mwy nag ugain mlynedd, tynodd Israel yn ôl o'r parth ym mis Mai 2000.

Ar ddiwedd y 1980au daeth gwrthryfel Palestina—yr Intifada, y "suicide bombers" Arabaidd a'r dial gan fyddin Israel. Lladdwyd llawer o bobl cyffredin ar y ddwy ochr.

Ym 1993 gwelwyd Cytundeb Heddwch Oslo, Israel yn cydnabod y PLO ac yn rhoi ymreolaeth gyfyngedig iddynt o'r tiroedd Palestinaidd, yn gyfnewid am heddwch, a diwedd ar hawliadau Palestina ar diriogaeth Israel. Arweiniodd hyn at Israel yn cael rheolaeth ar adnoddau fel dŵr a ffyrdd hyd yn oed yn y rhanbarthau Palestinaidd.

Ym 1994, tynodd Israel yn ôl o Lain Gaza a Jericho. Ym 1995, cafodd Prif Weinidog Israel ei lofruddio gan eithafwr Iddewig. Ym mis Ebrill 1996, bomiwyd Libanus gan luoedd Israel am bythefnos.

Ac mae'r helynt wedi parhau yn y ganrif gyntaf ar hugain. Ar ddechrau 2006, er enghraifft, enillodd eithafwyr Hamas rym ym Mhalestina. A thra bod Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig wedi ceisio pasio nifer o benderfyniadau yn feirniadol o Israel, mae'r Unol Daleithiau wedi defnyddio ei feto i atal bron pob un o'r penderfyniadau.

Ac yn Hydref 2023, ymosododd Hamas ar Israel, gan ladd a herwgipio nifer o bobl ifanc. Ac, fel y gwyddom ni i gyd, mae dial Israel yn parhau hyd heddiw.

Gwyddoch chi fod 'na rhyw ugain miliwn o Iddewon yn byd heddiw, ond dau biliwn o Fwslemiaid? Hyny yw, mae 'na GAN GWAITH fwy o Fwslemiaid nag Iddewon yn fyd-eang. Nid oes rhyfedd felly bod yr Iddewon yn teimlo o dan fygythiad.

(Gyda llaw, mae 'na rhyw 2.4 biliwn o Gristnogion yn fyd-eang, felly ychydig yn fwy o Gristnogion nag o Fwslemiaid, ond erbyn 2050 bydd y rhifau'n gyfartal yn ol y rhagolygon, ac ar ol hyny, mwy o Fwslemiaid).

A gwyddoch chi bod 'na rhyw ddeng miliwn o bobl yn byw yn Israel, dau filiwn ohonynt yn Fwslemiaid? Ond rhyw bum miliwn yn unig sy'n byw yn y "Wladwriaeth Palestiniaidd" (sef Llain Gaza a'r Lan Orllewinol)? Ac mae gan Israel rym milwrol anhygoel, y bom atomig, a chefnogaeth UDA. Nid oes rhyfedd felly bod y Palestiniaid yn teimlo o dan fygythiad.

A gwyddoch chi bod 35,500 o Balestiniaid wedi cael eu lladd yn y brwydro diweddar, a 1,500 o Iddewon?

**DAU WAREIDDIAD**

Yr oedd dau wareiddiad ar strydoedd yr Hen Gaersalem.
Gyrrai'r Arabiaid eu ceir llydain Americanaidd
Ar hyd yr heolydd culion; mor gul

Fel yr oedd yn rhaid i un car weithiau
Fyned i fyny i'r palmant i basio car arall;
Ac yr oedd cynifer o droeon yn y ffordd,
A rhai ohonynt mor chwyrn, fel yr oedd yn rhaid i'r gyrwyr
Ganu eu cyrn yn ddibaid; a chanu cyrn pan nad oedd raid
Am fod y car a'r corn i'r Arabiaid fel teganau i blant;
Yr oedd swn y cyrn diamynedd yn brifo nerfau dyn.
Ar yr un heol yr oedd modur a mul,
Asyn a bws, a cheir a chamelod.
Doniol oedd gweled y camel yn cerdded yn afrosgo araf,
Ei draed yn fforchi'r ewin
A'i gorff uchod fel rhyw danc triphen,
Tanc yn medru dal dyddiau o ddwr.
Y camel yn cerdded yn urddasol ar heol darmacadam;
Yr hen greadur a oedd yn hŷn nag Abraham.
A heibio iddo y gwibiai'r ceir crand Americanaidd,
A phan fethent ei basio,
Gorfod myned y tu ol iddo yn araf
Gan regi islaw ei ben-ôl.
Dau wareiddiad ar yr un heol;
Abraham a Henry Ford ar yr un ffordd.
Yn ol y Moslem, y mae ar ei dduw, Allah, ugain enw,
Ond y camel yn unig a ŵyr yr ugeinfed.
Ac wele'r hen gamel gwybodus yn syllu oddi uchod yn ddirmygus
Ar wareiddiad materol y Gorllewin yn cyrnchwyrnu heibio.

**YR IDDEWON**

Y mae hi yn genedl sydd wedi cadw ei gorffenol,
Ei chrefydd a'i thraddodiadau hi gynt;
Y mae ei thir heddiw fel yr oedd ers canrifoedd,
A hanesyddol yw ei haul, ei mellt a'i gwynt.

Wrth weled yr Arabiaid Bedwin yn pabellu ar y meysydd,
Fe gofiasom am grwydro Abram a'i dylwyth ef,
A'r Rechabiaid a fynai grefydd biwritanaidd yr anialwch,
A dirmygu crefydd feddal foethus dinas a thref.

Fe edrychasom i lawr i ddyfnder swnllyd Ffynon Jacob,
Gan ganu i'r Gwr a fu'n sefyll wrthi hi,
Ac aros wrth y Mor Marw, lle'r oedd adfeilion Sodom a Gomorra,
Ac ol llosg arnynt, dan y dyfroedd dibysgod, di-li.

O Haifa fe ddringasom i ben mynydd Carmel
Lle y lladdodd Elias broffwydi Baal.
Wrth Jericho, fe welsom y dref a ddinistriwyd gan fiwsig,
Wedi ei chloddio o'r gorffenol gan gaib a rhaw a phâl.

Yn ei ddinas ei hun fe welsom Feddgell Dafydd,
Ar ôl i un o'r Rabbiniaid godi ini gysegredig len;

Yno yr oedd rhes o ganhwyllau, a'r Tora a'r Talmud mewn cistiau
Ac wrth ymadael fe roes Rabbi fendith Hebraeg ar ein pen.

Yr heniaith y gorfodir i'w dysgu yn yr ysgolion,
A'i harfer ym mhob cylch o fywyd, yw'r Hebraeg:
Ohoni hi y tynant enwau diwydianol a thechnegol,
A phan na allant, o Roeg a Lladin ac Aramaeg.

Mor agos fyw yw hen broffwydi ac arweinwyr y genedl,
Amos, Eseia, Jeremeia, Elias ac Eliseus:
Yr wythnos ddiwethaf y bu farw y Brenin Dafydd,
Ac echdoe y claddwyd Jwdas Macabeus.

**Y COED**

Chwe miliwn o goed yng Nghaersalem, fe'u planwyd hwy
Yn goeden am bob corff a losgwyd yn y ffyrnau nwy.

Coed sydd yn estyn eu gwreiddiau i ganol lludw pob ffwrn,
Y lludw sydd wedi mynd ar goll, heb fynwent na bedd nac wrn.

Chwithig oedd gweled y cangau fel cofgolofnau byw,
Ac nid marmor na gwenithfaen, na hyd yn oed yr angladdol yw.

Ni chlywem ni na chlychau'r Eglwys na mwesin y Mosg,
Ond clywed rhwng eu cangau hwy y marwnadau llosg.

Nid yw'r dwylo a'u planodd yn ddieuog, na'u cydwybod yn lân,
Canys diddymodd yr Israeliaid bentrefi'r Arabiaid a'u tân.

Pam na ddylai'r Arabiaid, hwythau, godi yn Cairo ac Amman,
Fforestydd o goed i gofio yr anghyfiawnder a'r cam?

Ond ni allwn ni gondemnio'r Natsiaid na'r Iddewon ychwaith
Canys fe droesom o'r awyr Dresden yn un uffern faith;

A gollwng y ddau fom niwclear ar y ddwy dre yn Japan.

O'r holl ganrifoedd a gerddodd ar y ddaear er cychwyn y byd,
Yr ugeinfed yw'r fwyaf barbaraidd ohonynt hwy i gyd.

Fe fydd y nesaf yn waeth am fod y bomiau a'r rhocedi yn fwy,
A dyfeisir mewn labordai dirgel sawl math o nwy.

A phan ddaw'r Trydydd Rhyfel i gadw ei ddychrynllyd oed,
Ni ellir rhifo'r lladdedigion llosg, na rhifo ychwaith y coed.

Chwe miliwn o goed yng Nghaersalem, chwe miliwn, a thair croes,
Ac ar y ganol yr Unig Un a fu'n byw'r Efengyl yn Ei oes.

Daw'r tymhorau i newid eu lliwiau, gwyrdd, melyn a gwyn.
Ond coedwig y marwolaethau'n aros a fyddant hwy, er hyn.

Pan fyddant ymhen blynyddoedd wedi tyfu i'w llawn maint,
Fe wel y genhedlaeth hono nad oeddem ni yn llawer o saint.

**GARDD GETHSEMANE**

Deuddeg ar hugain o Gymry ar brynhawn y Groglith
Yn cynal cyfarfod yng Ngardd Gethsemane:
Gweinidog yn darllen hanes yr Ardd
Yn y Beibl Cymraeg:
Gweinidog arall yn diolch i Dduw mewn gweddi
Am y rhagorfraint arbenig o gael bod yno ymhlith yr olewydd:
A'r cwmni yn canu wedyn emyn Tomos Lewis Talyllychau,
'Wrth gofio'i riddfanau'n yr Ardd ...
Ni freuddwydiodd y gof wrth ei einion yn yr efail,
Nac yn ei wely yn y nos,
Y byddai twr o Gymry yn canu ei emyn yn yr Ardd:
Talyllychau yng Ngardd Gethsemane;
Gof ar ddi-hun yn ymyl yr Iesu.
Ni ollyngodd yr Arab o geidwad neb i'r Ardd trwy'r glwyd
Yn ystod y cyfarfod:
Gwrandawodd yn astud arnom yn yr iaith od,
A sychodd a'i lawes ddeigryn o gornel ei lygad.

**RHYFEL**

Gwae fi fy myw mewn oes mor ddreng,
A Duw ar drai ar orwel pell;
O’i ôl mae dyn, yn deyrn a gwreng,
Yn codi ei awdurdod hell.

Pan deimlodd fyned ymaith Dduw
Cyfododd gledd i ladd ei frawd;
Mae sŵn yr ymladd ar ein clyw,
A’i gysgod ar fythynod tlawd.

Mae’r hen delynau genid gynt,
Ynghrog ar gangau’r helyg draw,
A gwaedd y bechgyn lond y gwynt,
A’u gwaed yn gymysg efo’r glaw.

**Y TANGNEFEDDWYR**

Uwch yr eira, wybren ros, Lle mae Abertawe’n fflam.
Cerddaf adre yn y nos, Af gan gofio ‘nhad a ‘mam.
Gwyn eu byd tu hwnt i glyw,Tangnefeddwyr, plant i Dduw.

Ni châi enllib, ni châi llaid Roddi troed o fewn i’w tre.
Chwiliai ‘mam am air o blaid Pechaduriaid mwya’r lle.

Gwyn eu byd tu hwnt i glyw,Tangnefeddwyr, plant i Dduw.

Angel y cartrefi tlawd Roes i 'nhad y ddeuberl drud:
Cenad dyn yw bod yn frawd, Golud Duw yw'r anwel fyd.
Gwyn eu byd tu hwnt i glyw,Tangnefeddwyr, plant i Dduw.

Cenedl dda a chenedl ddrwg – Dysgent hwy mai rhith yw hyn,
Ond goleuni Crist a ddwg Ryddid i bob dyn a'i myn.
Gwyn eu byd, daw dydd a'u clyw, Dangnefeddwyr, plant i Dduw.

Pa beth heno, eu hystâd, Heno pan fo'r byd yn fflam?
Mae Gwirionedd gyda' nhad Mae Maddeuant gyda 'mam.
Gwyn ei byd yr oes a'u clyw, Dangnefeddwyr, plant i Dduw.

**DARLLENIAD**

Y mae Duw yn noddfa ac yn nerth i ni, yn gymorth parod mewn cyfyngder.
Felly, nid ofnwn er i'r ddaear symud ac i'r mynyddoedd ddisgyn i ganol y môr,
er i'r dyfroedd ruo a therfysgu ac i'r mynyddoedd ysgwyd gan eu hymchwydd.

Y mae afon a'i ffrydiau'n llawenhau dinas Duw, preswylfa sanctaidd y Goruchaf.
Y mae Duw yn ei chanol, nid ysgogir hi; cynorthwya Duw hi ar doriad dydd.
Y mae'r cenhedloedd yn terfysgu a'r teyrnasoedd yn gwegian; pan gwyd ef ei lais, todda'r ddaear.
Y mae ARGLWYDD y Lluoedd gyda ni, Duw Jacob yn gaer i ni.

Dewch i weld gweithredoedd yr ARGLWYDD, fel y dygodd ddifrod ar y ddaear;
gwna i ryfeloedd beidio trwy'r holl ddaear, dryllia'r bwa, tyr y waywffon, a llosgi'r darian â thân.
Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi sydd Dduw, yn ddyrchafedig ymysg y cenhedloedd, yn ddyrchafedig ar y ddaear.
Y mae ARGLWYDD y Lluoedd gyda ni, Duw Jacob yn gaer i ni.

**GWEDDI:**

A gawn ni droi at Dduw mewn gweddi:

Rydym yn clywed fel petai'n ddi-stop am y gynau a'r rocedi, y drônau a'r bomiau. Gwelwn y lluniau o ladd yn Irac, Syria, Afghanistan, Congo, Nigeria, Swdan a De Swdan, Wcráin, Israel a Phalestina, Gweriniaeth Canolbarth Affrica, El Salvador, Honduras, Guatemala.

Mae'r bomiau'n ffrwydro yn Gaza ac Israel.

Mae'r bomiau'n ffrwydro yn yr Wcrain.

Mae trais yn parhau i fod yn gudd mewn cymaint o gartrefi a theuluoedd ledled y byd – gan gynwys cam-drin plant diniwed - yma yng Nghymru fel ym mhobman arall.

A'r bore 'ma, darllenwn yn y papur newydd bod prif weinidog Prydain am orfodi'n bobl ifanc i baratoi am ladd, drwy ail gyflwyno "national service". Cywilydd arno. Gwir mae angen newid llywodraeth Brydeinig yn dlawd arnom.

Gweddïwn am lonyddwch, am gyfiawnder, ac am heddwch o'r diwedd. Ofnwn na ddaw o gwbl.

Ti yw Duw Abraham a Sarah, a’r tair crefydd fawr a ddeilliodd ohonynt. Gweddïwn am heddwch rhwng Israeliaid a Phalestiniaid; Sunis a Shiites; Mwslemiaid, Iddewon, a Christnogion.

Gweddïwn am heddwch rhwng Rwsia ac Wcrain, dwy wlad, cymdogion, ag achau Cristnogol.

Gweddïwn am drafodaethau a all fynd i wraidd gwrthdaro hanesyddol.

Gweddïwn am ymrwymiad i urddas a sancteiddrwydd bywyd.

Gweddïwn am ymyrraeth ryngwladol effeithiol i sicrhau cyfiawnder i bob ochr.

Gweddïwn am gymorth dyngarol ac ail-ailadeiladu lle mae dinistr wedi digwydd.

Gweddïwn am heddwch a chyfiawnder yn ein cartrefi ac ar strydoedd Cymru.

Gweddïwn am ddiwedd ar drais, rhyfel, a lladd.

Caniatâ hyn i ni, Dduw heddwch. Rho fyd heddychlon ini.

Amen.

**Y FENDITH**

A gawn ni ddiweddu’r oedfa drwy gyd adrodd y Fendith.